



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Princes Gate Water

Canolfan Trosglwyddo Gwybodaeth yn helpu Cwmni Dŵr Princes Gate i befrïo.

www.cymru.gov.uk

Mae Canolfan Trosglwyddo Gwybodaeth Prifysgol Abertawe (CTG), drwy ddylunio cynnyrch yn seiliedig ar efelychu, wedi helpu Cwmni Dŵr Ffynnon Princes Gate i fynd i'r afael â'r broblem o golli carbon deuocsid yn rhy gynnar o'u poteli o ddŵr pefriog

Mae CTG Abertawe yn hyrwyddo ac arddangos manteision technoleg newydd a gwasanaethau arbenigol i ddiwydiant a busnes fel ei gilydd. Rhoddodd y cydweithredu gyfle i Princes Gate ddefnyddio cyfleusterau ymchwil a chymorth technegol a oedd ar gael o fewn cyfnod byr o amser.

Cyflogodd y CTG ym Mhrifysgol Abertawe, sydd wedi'i chefnogi gan gyllid A4B Llywodraeth Cymru, bedwar o weithwyr technolegol i weithio ar y prosiect tri mis hwn. Gwnaethant ddefnyddio adnoddau efelychu i archwilio problemau dylunio yn y ddau faes o bwys - hylifau (y dŵr) a solidau (y botel).

I ddechrau, edrychodd personél y Ganolfan ar ffatri boteli'r cwmni i weld a oedd unrhyw broblemau amlwg, ond ni nodwyd unrhyw broblemau o'r fath. Canolbwyntiodd yr archwiliadau ar ôl hyn ar gaead y botel; yn benodol ar sut i atal nwy rhag dianc.

O fewn y fframwaith amser, yr unig achos posibl o golli nwy y gallai'r Ganolfan ei archwilio ar unwaith gyda'r adnoddau oedd ar gael iddynt oedd yr un a oedd yn gysylltiedig â dyluniad y caead. Wedyn, cynhaliwyd ymchwil a dadansoddi cyfrifiadurol a chyflwynwyd y canlyniadau i Princes Gate ar ddiwedd y tri mis. Arweiniodd hyn at welliant ym mhroses cynhyrchu'r cwmni o ganlyniad i ganfyddiadau'r CTG.

Meddai Peter Moran, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cwmni Dŵr Princes Gate: "Rydym yn cynhyrchu poteli o ddŵr llonydd a dŵr pefriog. Ychydig flynyddoedd yn ôl roeddem yn cael problemau gan nad oedd ein dŵr pefriog yn ddigon pefriog. Roedd hyn yn aml yn digwydd ar ôl iddo gael ei gadw am beth amser; roeddem yn ansicr a oedd hyn yn digwydd oherwydd y caead neu oherwydd y dŵr, ac oherwydd hyn gwnaethom gysylltu â'r brifysgol am help i geisio deall pam yr oedd hyn yn digwydd i'n dŵr pefriog. Roedd yr ymchwil dechnegol a'r adroddiad a ddarparwyd gan Brifysgol Abertawe yn ddefnyddiol iawn ac o ganlyniad, llwyddwyd i symud ymlaen a chynyddu'r Co2 a roddwn yn ein diodydd, heb unrhyw gwynion pellach."



I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

Ebost: businesssupport@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: busnes.cymru.gov.uk

Ffôn: 03000 6 03000